



Pwy oedd y Gwrthryfelwyr Coch trawiadol hyn a welwyd yn Nhal-y-bont ar 30 Awst? mae'r ateb ar dudalen 10

tud 4-6 Y Sioe	tud 7 Mwyn a Mwy	tud 10 Capel ac Eglwys	tud 12 Dirgelwch y cerrig
-------------------	---------------------	---------------------------	------------------------------

Y Cyfnod Clo

Wrth i'r cyfnod gofidus hwn barhau, mae'n briodol i ni ddiolch i'r holl weithwyr allweddol a'r gwirfoddolwyr cymunedol sydd wedi'n cynorthwyo i gynnal ein cymunedau.

Er nad yw'r firws mileinig wedi'n taro ni'n ddrwg yma yng ngogledd Ceredigion hyd yn hyn, bydd angen i ni barhau i fod yn wylidwrs wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio. Pwyll piau hi o hyd.

Bellach mae'r Llew Gwyn a'r Wild Fowler yn gweini bwyd a diod o dan y rheolau cyfyngu ac mae Richard yn ôl yn torri gwallt. Ond trwy'r holl gyfnod clo fe fuom yn ffodus i dderbyn gwasanaethau rhagorol gan ein siopau lleol.

Mae wedi bod yn gyfnod anodd i Cletwr gan i'r caffi fod ar gau am fisoedd a dibynnwyd ar werthiant nwyddau yn y siop i gynnal y busnes. Mae llawer yn y gymuned wedi manteisio ar y gwasanaeth cludo a chasglu yno. Bellach mae'r caffi ar agor ond fe fydd yn bwysig parhau i siopa yno yn ogystal â galw am baned a chacen. Ceir adroddiad llawn o weithgareddau Cletwr ar dudalen 8.



Claire yn siop y garej



'Bywyd yn y cyfnod clo' oedd testun y ffotograff trawiadol hwn gan Elizabeth Merriman a enillodd y wobwr gyntaf iddi yn Sioe Tal-y-bont

Yn Nhal-y-bont ni ddylid anghofio'r gymwynas fawr a wnaeth garej y pentre wrth ymestyn gwasanaeth ei siop dros chwe mis cyntaf y Gofid – ac am gyfnod cyn hynny. Dywedodd Claire Clark, perchennog y garej gyda'i gŵr Peter: "Pan ddaeth argyfwng y Cloi, roedd angen i bawb dynnu at ei gilydd. Mae Talybont yn bentre mor gyfeillgar ac yr ydym yr un mor falch o gefnogaeth y pentrefwyr ag y maen nhw, gobeithio, o be wnaethon ni. Yn sgil y cyfyngiadau symud, roedd yn rhaid i ni gynnig dewis tipyn ehangach o fwyd na'r 'siop forecourt' oedd gyda ni o'r blaen gyda'i ddiodydd oer a byrgys, ac yr oedd yn rhaid i ni hefyd addasu fel staff.

Rwy'n ddiolchgar iawn i staff y garej am fy helpu mewn cyfnod pan oedd hi'n brysur iawn yn y garej ei hun. Credwch neu beidio, roedd yr ochr beiriannol yn wyllt o brysur yn ystod ac yn wir wedi'r Cloi, ac rwy'n gwerthfawrogi sut y gwnaeth pawb dynnu pwysau er mwyn cadw'r siop i fynd.

Gyda llaw, yn ystod y cyfnod hir o ansicrwydd a fu ynghynt ynglŷn â dyfodol siop y pentre, fe gawsom ein temtio i feddwl am greu siop ym mlaen y garej, a symud y gweithdy i'r cefn, ond mae'n dda na ddigwyddodd hynny. Ond beth bynnag sy'n digwydd i siop y pentre, mi fydd siop y garej yn parhau. Roedden ni yma o'r blaen, ac fe fyddwn ni yma eto!"

Papur Pawb

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
 hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Marwolaethau

Trist yw cofnodi marwolaeth Ieuan Wynne Jones, Rhydyfelin, yn 80 oed. Bu farw ar y 9fed o Awst, naw mis wedi colli ei briod Catherine, cyn-brifathraes ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn. Bu'r ddau ohonynt, ynghyd a'u mab, Geraint, yn byw am gyfnod yr yr Emporium. Yn Nhalybont y dechreuodd Geraint ei addysg, gyda'i fam yn weithgar yn y pentre yn ystod dyddiau cynnar yr Ysgol Feithrin. Bu Ieuan yn gweithio am flynyddoedd yn y Labordy Mlfeyddogol ar y Buarth, ac yr oedd yn bysgotwr brwd.

Bu farw Mrs Mary Arlyn (Lyn) Hammonds, gynt o Bryn-y-wawr, Tal-y-bont ar 14 Gorffennaf 2020. Cafodd ofal arbennig dros y cyfnod diweddar yng Nghartref Preswyl Pennal View, Blaenpennal. Bu'n aelod ffyddlon o'r gangen leol o Ferched y Wawr a chapel Bethel ble roedd bob amser yn fodlon cynorthwyo i gyfeilio yn y gwasanaethau pan oedd angen. Roedd Mrs Hammonds yn enedigol o Bontardawe, a chydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i theulu, ac yn arbennig gyda'i mab Owain, Pennnant, Bont-goch a'i hwyrion Ianto ac Elwyn.

Estynwn ein cydymdeimlad â Linda Denton, Felin Penpompren, Tal-y-bont, a gollodd ei mam, a oedd yn byw yn Swydd Hampshire, yn ddiweddar, a hefyd i deulu Christine Vass a fu farw ym mis Gorffennaf. Bydd llawer yn cofio Chris o'i chyfnod yn y Llew Du, Tal-y-bont, ychydig flynyddoedd yn ôl.

Cydymdeimlwn hefyd â Mark Weller, Dan-y-deri, Bont-goch a gollodd ei fam yn ddiweddar ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Pen-blwyddi Bont-goch

Dymuniadau gorau i Nia Jones (Brynolwg), Mali Jones (Cnwc-y-bar cud) a Sean Dunne (Yr Hen Waith Dŵr) ar ddatlu pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar.

Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Rhydian Evans, Tŷ nant, Bont-goch, ar ennill Cystadleuaeth Cneifio Gelert, sef cystadleuaeth ar-lein a drefnwyd ym mis Mehefin. Rhoddwyd cryn sylw i'r gystadleuaeth ar y rhaglen deledu 'Heno'.



Priodas Ddiamwnt

Nôl ym mis Mawrth roedd Jano a Gwynndaf Evans, 94 Maesyderi'n dathlu eu priodas ddiamwnt. Priododd y ddau yn Aberystwyth ar 26 Mawrth, 1960. Roedd y merched wedi trefnu iddynt fynd allan i gael swper dathlu ond cyn iddynt cael cyfle i fynd fe gyrhaeddodd y feirws Cofid19 a bu raid rhoi stop ar y trefniadau, er mawr siom iddynt. Ond fis diwethaf, gyda'r rheolau wedi eu llacio, trefnwyd parti hwyr (heb yn wybod iddynt) yn eu gardd i ddathlu'r achlysur hapus. Daeth y teulu, ffrindiau a chymdogion at ei gilydd a chyflwynwyd blodau ac anrhegion i'r ddau. Llongyfarchiadau hwyr i chi Jano a Gwynndaf a phob dymuniad da i chi.

Ymddeoliad

Dymuniadau gorau i Mina Morel, Llawr-y-glyn, Bont-goch, ar ei hymddeoliad o staff Prifysgol Aberystwyth - mwy o amser i ferlota a cherdded Leri y ci newydd!

Penblwyddi Arbennig

Cyfarchion penblwydd arbennig i Mair Nutting, Ty Hen Henllys, Tal-y-bont. Gobeithio i ti gael dathliad teilwng wedi dy holl waith caled gyda sioe Tal-y-bont. Yn ddiweddar dathlodd Paul Jenkins, Bwthyn y Fron, Tal-y-bont benblwydd arbennig hefyd a'r un yw ein dymuniadau gorau i chi.

Symud tŷ

Croeso mawr i dŷ top Pentre Bach i David Morgan gynt o Allt Goch. Bu David yn byw yng nghanol Tal-y-bont gyda Ieuan ei frawd am ddwy flynedd wedi marwolaeth Dilys a thra roedd

Dylan a'r teulu yn ymgartrefi yn Allt Goch. Dyma ail gyfnod David yn nhŷ top, roedd yn byw yna tan 1988 pan symudodd i'r fferm.

Yn yr Ysbyty

Yn dilyn anffawd yn ei chartref y mae Mrs Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont yn Ysbyty Bronglais. Gobeithio eich bod yn gwella ac wedi llwyddo i gael diwrnod penblwydd cystal â phosibl dan yr amgylchiadau. Cofion cynnes iawn atoch.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gydag Elen Clwyd Roberts, Mynydd Gorddu a'r teulu ar golli cefnder ym Mhontllyfni, ger Caernarfon ar 25 Awst a hefyd gyda Richard ac Eirlys Huws, Pantgwyn, Bont-goch ar golli eu brawd-yng-nghyfraith (gŵr chwaer Eirlys) yng Nghaernarfon ar 28 Awst.

Swyddi Newydd

Pob hwyl i Ffion Haf Nelves, Dolau Gwyn, Tre'r ddôl ar gael ei phenodi'n Seicolegydd Cynorthwyl yng ngogledd Ceredigion. Dymuniadau gorau hefyd i Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar ei swydd cyntaf newydd gyda chwmni o Gyfreithwyr yn ninas Caerdydd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwyn a Fal Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hwyres fach Lili Haf yng Nghaerdydd. – merch i Luned a Matthew a chwaer fach i Taliesin Dafydd. Bu dathlu hefyd yn 86 Maesyderi wrth i Rena a Dennis Roberts ddod yn famgu a dadcu i Cali Reese Smith Roberts, merch fach i Paul Roberts a Sarah Smith. Dymunwn bob hapusrwydd i'r teuluoedd.

Cofion Cynnes

Ar hyn o bryd mae Mrs Betty Roberts, Maesyderi yn gwella yng nghartref ei merch Gaynor a'i theulu yn Llangwryfon. Gobeithio y byddwch yn dod adre i Dal-y-bont cyn bo hir Mrs Roberts.

Cartref newydd

Ar ffin ochr ddeheuol o bentref Ffwrnais, gellir gweld tŷ newydd a adeiladwyd gan Llion Jenkins o Ffwrnais a Catrina Evans o Bow Street. Croeso cynnes i'r ddau ifanc a gobeithio byddwch yn hapus yn ein plith. Wrth ei alwedigaeth mae Llion yn blymiwr, a Catrina yn trin gwallt a harddwch yn Aberystwyth.

I'r Orsedd

Llongyfarchiadau i Robat Gruffydd, Bryngwyn, Tal-y-bont, ar gael ei enwebu'n aelod o Orsedd Cymru. Bydd Robat yn cael ei urddo i'r wisg werdd yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn 2021.

Ffwrnais

Llongyfarchiadau i Alwyn a Clare, Bwlcheinion ar enedigaeth merch fach o'r enw Seren Catherine Anne Jenkins. Cyrhaeddodd Seren ar 26 Mehefin ac mae'n sicr iddi ddod â llawennydd mawr i'r teulu. Mae canrif wedi mynd heibio ers i enedigaeth ddigwydd ym Mwlcheinion pan aned Anne Jenkins, hen hen famgu Seren yno.

Sioe Tal-y-Bont ar y We

Pan gyhoeddwyd na fyddai Sioe Frenhinol Cymru yn cael ei chynnal eleni, roedd sŷon y byddai Covid-19 yn chwalu cynlluniau holl sioeau amaethyddol yr haf ledled Cymru. A hwythau wedi'u caethiwo i'w cartrefi, a drysau'r Neuadd Goffa wedi'u cloi am y tro, llwyddodd Pwyllgor Sioe Talybont i ddod ynghyd i drafod dyfodol y Sioe drwy gynnal cyfarfod Zoom. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal rhai o gystadlaethau mwyaf poblogaidd y Sioe ar y we, fel bod trigolion lleol yn medru mwynhau a chymryd rhan yn ddiogel. Erbyn diwedd y cyfarfod, cytunwyd y byddai modd cynnal llawer mwy o gystadlaethau ar y we, gan gynnwys rhai na fyddai'n bosib eu cynnal mewn sioe draddodiadol. Felly ym mis Mai, cyhoeddodd y Pwyllgor y byddent yn cynnal y Sioe ar y we gyda'r bwriad o arddangos bywyd cefn gwlad, byd amaeth a chynnyrch yr ardal ar eu gorau.


Nesaf, bu'n rhaid ystyried y ffordd orau o gynnal y sioe yn llwyddiannus. Gan nad oedd modd rhagweld faint o ddiddordeb fyddai gan bobl, penderfynwyd y byddai'r Sioe yn agored i drigolion yn byw i'r gogledd o Afon Ystwyth hyd at ffin ogleddol y sir NEU i unrhyw un a gystadlodd yn y Sioe rywdro yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Er mwyn cystadlu, roedd gan y cystadleuwyr dair wythnos i lenwi ffurflen gystadlu* ar raglen o'r enw Formplus, ffordd hwylus o uwchlwytho'r cynigion yn syth i ddwylo'r Pwyllgor, felly dwi'n siŵr y daw hwn yn ddefnyddiol yn sioeau'r dyfodol. Yn dilyn y dyddiad cau, bu 25 o wirfoddolwyr (gan gynnwys aelodau'r Pwyllgor a thrigolion lleol) yn gweithio'n galed dros y diwrnodau nesaf i drefnu'r holl gynigion yn barod i'r beirniaid, a'u rhoi ar Facebook er mwyn i bawb eu gweld. Nid oedd hon yn dasg hawdd gan ystyried bod gan y Sioe 123 o gystadlaethau o fewn 17 adran! Roedd yn dipyn o sialens hefyd gan fod 759 o gynigion wedi cael eu derbyn! Lwcus felly bod 27 o feirniaid wedi cytuno i'w beirniadu o fewn diwrnodau o'u derbyn.

Y dasg nesaf oedd creu tystysgrifau i'r holl gynigion buddugol, a'u huwchlwytho unwaith yn rhagor i Facebook, fel eu bod yn cael eu rhyddhau ar ddiwrnod gwreiddiol y Sioe, y 29ain o Awst. Cyhoeddwyd yr holl enillwyr trwy gydol y dydd, gan gynnwys enillwyr y ddau £100, sef Lisa a Roy Rowlands, Llyfnant, Machynlleth. Llongyfarchiadau i chi am dynnu'r ddau lun gorau yn nosbarthiadau 26 a 27 yn adran y Ffotograffiaeth Arbennig.

Er i'r Pwyllgor wynebu sawl her wrth baratoi'r Sioe, roeddent yn benderfynol o beidio â rhoi'r ffidil yn y to. Cynhaliwyd y Sioe yn ddwyieithog fel bod pawb yn gallu mwynhau'r cystadlu, a bu'r cyfan yn llwyddiant ysgubol, gan brofi rhai amheugar yn anghywir! Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb gefnogaeth y gymuned, felly diolch yn fawr i chi gyd am gefnogi a chymryd rhan, a gobeithio y gellir eich croesawu yn ôl i faes y Sioe flwyddyn nesaf!

*Nid oedd tâl cystadlu eleni, ond mae'r Pwyllgor yn codi arian tuag at y Cylch Meithrin felly os hoffech gyfrannu, ewch i <https://www.justgiving.com/crowdfunding/cylchtaalybont>

Betsan Siencyn



Glain Jones gyda'i llawyrgrifen fuddugol



Caio Llywelyn Mason Lewis gyda'i anifail anwes a'i lun buddugol o drip i'r traeth



Ariana Lloyd-Williams gyda'i chastell buddugol



Osian January-McCann gyda'i fam a wisgwyd fel bwan brain

Y Canlyniadau

ADRAN C / SECTION C: Helen Williams

5 Ebol(es) / Foal

- 1 Bridfa Arthen, Glasfryn, Penllwyn, Capel Bangor

GWISG FFANSI / FANCY DRESS: Karen Jones

13 Gwisg ffansi (o dan 12 oed) / Fancy dress (under 12 years of age)

- 1 Mari Evans, Glanaber, Talybont

CEFFYLAU GWEDD / SHIRE HORSES: Paul Fleming

14 Caseg ac ebol(es) wrth droed / Mare with foal at foot

- 1 Edward a Caryl Tudor Jones, Clos Bach, Llanegryn
- 2 David Davies, Troedrhwi-ceir, Aberffwrdd
- 3 Peter Davies, Cwm Canol, Cwmsymlog

15 Caseg wag / Barren mare

- 1 Peter Davies, Cwm Canol, Cwmsymlog
- 2 David Davies, Troedrhwi-ceir, Aberffwrdd
- 3 David Davies, Troedrhwi-ceir, Aberffwrdd

16 March / Stallion

- 1 Edward a Caryl Tudor Jones, Clos Bach, Llanegryn
- 2 Peter Davies, Cwm Canol, Cwmsymlog
- 3 David Davies, Troedrhwi-ceir, Aberffwrdd

GWARTHEG DUON CYMREIG / WELSH

BLACK CATTLE: Alun Vaughan

17 Tarw unrhyw oed / Bull any age

- 1 Dafydd Rees, Brysgaga, Bow Street

18 Buwch gyflo neu fagu / Cow in milk

- 1 Enoc Jenkins, Tyn-y-graig, Talybont
- 2 Teulu Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont
- 3 Dafydd Jenkins, Tanrallt, Talybont

19 Heffer gyflo (a aned ar ôl 01.03.17) / Heifer in milk (born after 01.03.17)

- 1 Dafydd Jenkins, Tanrallt, Talybont

20 Heffer 2 flwydd (a aned ar ôl 01.03.18) / Heifer 2 years (born after 01.03.18)

- 1 Teulu Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont
- 2 Trefor Jones, Cwmcae, Bow Street
- 3 Dafydd Rees, Brysgaga, Bow Street

21 Heffer flwydd (a aned ar ôl 01.03.19) / Heifer 1 year (born after 01.03.19)

- 1 Teulu Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont
- 2 Dafydd Rees, Brysgaga, Bow Street

GWARTHEG HOLSTEIN Y DU / HOLSTEIN UK CATTLE: Geoff Williams

22 Buwch mewn llaeth / Cow in milk

- 1 Teulu Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont
- 2 Teulu Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont

23 Heffer mewn llaeth / Heifer in milk

- 1 Teulu Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont
- 2 Teulu Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



'Fy nghymuned': ffotograff buddugol Catrin M S Davies

DA BİFF / BEEF CATTLE: Alun Vaughan
24 Bustach neu heffer 30 mis ac iau / Steer or heifer 30 months and under
1 Elgan Evans, Pantcoch, Talybont

25 Bustach neu heffer 12 mis ac iau / Steer or heifer 30 months and under
1 Deio Roberts, Ty Nant, Rhyduchaf, Bala, Gwynedd
2 Siwan Evans, Pantcoch, Talybont
3 Elgan Evans, Pantcoch, Talybont

FFOTOGRAFFIAETH ARBENNIG / SPECIAL PHOTOGRAPHY: Arvid Parry-Jones
26 Llun o Wartheg Duon Cymreig yn eu cynefin
Photograph of welsh black cattle in their habitat
1 Lisa Rowlands, Llyfnant, Machynlleth
2 Sue Plant, Gerddi Bluog, Harlech
3 Dylan Morgan, Alltgoch, Talybont
Clod Arbennig Alun Elidir, Simne Wen, Talybont

27 Llun o unrhyw frid arall gan gynnwys gwartheg croes yn eu cynefin
Photograph of any other breed including cross bred cattle in their habitat
1 Roy Rowlands, Llyfnant, Machynlleth
2 Caryl Jones, Llerneuaddau, Ponterwyd
3 Roy Rowlands, Llyfnant, Machynlleth
Clod Arbennig Mari Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl

DEFAID MYNYDD CYMREIG / WELSH MOUNTAIN SHEEP: Geraint Jones
28 Hwrdd unrhyw oed / Ram any age
1 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont
2 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont
3 Teulu Nutting, Tyhen Henllys, Talybont

29 Dafad unrhyw oed / Ewe any age
1 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont
2 Dafydd Jenkins, Tanrallt, Talybont
3 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont

30 Oen hwrdd / Ram lamb
1 Dewi Jenkins, Tynygraig, Talybont
2 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont
3 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont

31 Oen benyw / Ewe lamb
1 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont
2 Dafydd Jenkins, Tanrallt, Talybont
3 Enoc Jenkins, Tynygraig, Talybont

DEFAID TORDDU / BADGER FACE SHEEP: Henry Jones
32 Hwrdd unrhyw oed / Ram any age
1 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont
2 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont

34 Oen hwrdd / Ram lamb
1 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont
2 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont

35 Oen benyw / Ewe lamb
1 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont
2 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont

DEFAID TORWEN SHEEP: Henry Jones
36 Hwrdd unrhyw oed / Ram any age
1 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont
2 Rhys Mills, Bryngwy, Pantmawr, Llanidloes

3 Ela Williams, Morawel, Talybont

38 Oen hwrdd / Ram lamb
1 Rhys Mills, Bryngwy, Pantmawr, Llanidloes
2 Rhys Mills, Bryngwy, Pantmawr, Llanidloes
3 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont

39 Oen benyw / Ewe lamb
1 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont
2 Rhys Mills, Bryngwy, Pantmawr, Llanidloes
3 Rhys Mills, Bryngwy, Pantmawr, Llanidloes
4 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont

UNRHYW FRÎD MYNYDD ARALL / ANY OTHER HILL BREED: Henry Jones
40 Hwrdd unrhyw oed / Ram any age
1 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont

41 Dafad unrhyw oed / Ewe any age
1 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont
2 Meirion a Dafydd Williams, Morawel, Talybont

DEFAID DORSET / HORN AND POLL DORSET: John Baker
44 Hwrdd unrhyw oed / Ram any age
1 Iolo Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl
2 Iolo Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl

45 Dafad unrhyw oed / Ewe any age
1 Iolo Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl

46 Oen hwrdd / Ram lamb
1 Iolo Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl
2 Iolo Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl

47 Oen benyw / Ewe lamb
1 Iolo Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl
2 Iolo Davies, Doleifion, Tre'r Ddôl

UNRHYW FRÎD LLAWR GWLAD / ANY LOW LAND BREED: William Lewis
48 Hwrdd unrhyw oed / Ram any age
1 Ffion Jones, Berthlwyd, Talybont
2 Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter
3 Ffion Jones, Berthlwyd, Talybont

49 Dafad unrhyw oed / Ewe any age
1 Gethin Davies, Brenan, New Cross
2 Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter

50 Oen hwrdd / Ram lamb
1 Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter

51 Oen benyw / Ewe lamb
1 Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter

DEFAID ZWARTBLES SHEEP: Lorna Murray
52 Hwrdd unrhyw oed / Ram any age
1 DL&CV Jones, Danygraig Farm, Llandrindod Wells
2 Siwan Owen, Llanerch Felys, Pandy Tudur, Abergele
3 Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin

53 Dafad unrhyw oed / Ewe any age
1 DL&CV Jones, Danygraig Farm, Llandrindod Wells
2 Siwan Owen, Llanerch Felys, Pandy Tudur, Abergele
3 Siwan Owen, Llanerch Felys, Pandy Tudur, Abergele



Ffotograff buddugol Dafydd Jenkins. Sgwn i pwy yw'r cneifiwr?

54 Oen hwrdd / Ram lamb
1 Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin
2 Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin

55 Oen benyw / Ewe lamb
1 L&CV Jones, Danygraig Farm, Llandrindod Wells
2 Siwan Owen, Llanerch Felys, Pandy Tudur, Abergele
3 L&CV Jones, Danygraig Farm, Llandrindod Wells

TYWYSYDD IFANC CEFFYLAU / YOUNG HANDLER HORSES: Karen Jones
60 Tywysydd ifanc o dan 12 / Young handler under 12 years of age
1 Aneira Tudor Jones, Clos Bach, Llanegryn
2 Gwilym Tudor Jones, Clos Bach, Llanegryn
3 Ieuan Evans, Glanaber, Talybont

TYWYSYDD IFANC / YOUNG HANDLERS: Tim Bidell
62 Tywysydd ifanc o dan 12, yn arwain llo / Young handler under 12 years of age, handling a calf
1 Gwilym Tudor Jones, Clos Bach, Llanegryn
2 Aneira Tudor Jones, Clos Bach, Llanegryn
3 Mari Evans, Glanaber, Talybont

63 Tywysydd ifanc rhwng 12 a 16 oed, yn arwain llo / Young handler 12 - 16 years of age, handling a calf
1 Libby Foulkes, Voelas Villa, Taliesin

64 Tywysydd ifanc o dan 12, yn arwain unrhyw ddafad / Young handler under 12 years of age, handling any sheep
1 Hari Willams, 7 Maes y Deri, Talybont
2 Ela Williams, 7 Maes y Deri, Talybont

65 Tywysydd ifanc rhwng 12 a 16 oed, yn arwain oen swci / Young handler 12 - 16 years of age, handling a pet lamb
1 Caio Jones, Danygraig Farm, Trefonnen Lane, Llandrindod Wells
2 Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter

66 Tywysydd ifanc o dan 12, yn arwain unrhyw ddafad / Young handler under 12 years of age, handling any sheep
1 Elsi Iago, Pantcoch, Talybont
2 Ieuan Evans, Glanaber, Talybont
3 Mari Evans, Glanaber, Talybont

CŴN / DOGS: Rheinallt and Catherine Richards
67 Ci yn gwneud tric / Dog performing a trick
1 Ynyr Siencyn, Tanrallt, Talybont
2 Tomi Jac Wyn Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Talybont
3 Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter

69 Unrhyw gi wrth ei waith / Any dog at work
1 Betsan Siencyn, Tanrallt, Talybont
2 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen, Talybont
=3 Sara Jenkins, Tynygraig, Talybont
=3 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen, Talybont

70 Y ci mwyaf ciwt / Cutest dog
1 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen, Talybont
2 Ceri Jones, Awel y Gors, Talybont
3 Sara Lewis, Henllan, Forge

DOFEDNOD / POULTRY: Huw Evans
71 Unrhyw fath mawr / Any variety large
1 Wyn James, Fronfraith Fach, Comins Coch
2 Wyn James, Fronfraith Fach, Comins Coch
3 Emily Evans, Llys Awel, Talybont

72 Unrhyw fath o fantam / Any variety bantam
1 Hywel Evans, 1 Bro Cymr, Llanelltyd
2 Wyn James, Fronfraith Fach, Comins Coch
3 Wyn James, Fronfraith Fach, Comins Coch

73 Unrhyw fath o fantam gwir / Any variety large
1 Michaela Devereux, Fronfraith Fach, Comins Coch
2 Michaela Devereux, Fronfraith Fach, Comins Coch
3 Gwenllian Evans, Rhosfach, Trefenter

74 Unrhyw fath o aderyn dŵr / Any variety large
1 Ffion Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn
2 Ffion Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn

76 Unrhyw fath o aderyn buarth, plant 15 oed ac iau / Any farmyard fowl, children 15 years and under
1 Ynyr Siencyn, Tanrallt, Talybont
2 Ynyr Siencyn, Tanrallt, Talybont
3 Plant Alltgoch, Talybont




NICEIC
APPROVED CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Y tunnel o dan bentre' Tal-y-bont

Mwyn a Mwy

Adolygiad o O'r Ddaear Fyddar Faith gan Ioan Lord (Y Lolfa, £14.99)

A wyddech chi fod twnnel hynafol o dan bentref Tal-y-bont ,yn ymestyn o Allt-y-crib o dan y ffordd fawr i'r tir o gwmpas Wern? Roeddwn yn gyfarwydd â'r stori, ond doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor fawr oedd y twnnel hyd nes i mi weld y llun ohono yn y gyfrol ysblennydd hon gan Ioan Lord.

Mae Ioan, sydd ond yn ei ugeiniau cynnar, wedi datblygu gwybodaeth eang iawn am y diwydiant mwyn yng ngogledd Ceredigion a ffrwyth ei ymchwil i'w testun y gyfrol. Cred y dylid rhoi'r un sylw i'r diwydiant mwyn yng Nghymru ac a roddir i'r chwareli llechi yn y gogledd a'r pyllau glo yn y de, wedi'r cyfan dyma ardal ddiwydiannol gyntaf Cymru.

Mae'n tynnu sylw at olion y cloddfeydd a ddatblygwyd o'r Oes Efydd, pedair mil o flynyddoedd yn ôl, a hefyd o gyfnod y Rhufeiniaid. Wrth grwydro'r ardal uwchlaw Tal-y-bont daeth o hyd i raw bren 0.8 metr o hyd sy'n dyddio o ddwy fil o flynyddoedd. Yna, mae'n olrhain hanes y gweithfeydd o'r 16eg ganrif ymlaen.

Nid yw Ioan yn bodloni ag adrodd hanes datblygiad y gweithfeydd, sydd efallai ond o ddiddordeb i archeolegwyr diwydiannol, gan ei fod hefyd yn rhoi sylw teilwng i'r bobl a reolai ac a weithiai yn y cloddfeydd.



Wagen rheilffordd Blaenceulan



Mwynwyr Penrhyngerwin

Mae'n adrodd nifer o hanesion difyr am hynt a helynt y mwynwyr - o'r Almaenwyr a ddaeth i weithio yn y gweithfeydd yn Nhal-y-bont a Goginan, i'r olaf i ennill bywoliaeth bitw iawn ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Hyd y gwn i does neb wedi mynd ati i astudio'n fanwl hanes y mwynwyr yn y 19eg ganrif a'u dylanwad ar y gymdeithas yng Ngheredigion. Mae'r gyfrol hon yn sail i ymchwil pellach.

Un o ragoriaethau'r gyfrol yw'r lluniau trawiadol a dynnwyd gan Ioan a'i gyd-geudyllwyr mentrus ymhell o dan y ddaear. Mae llawer o'r lluniau yn dangos person (Ioan ei hun gan amlaf) yn y twnelau a'r ogofau, sy'n gymorth i ddeall yn well hyd a lled y gweithfeydd. Enghraifft wych o hynny yw'r llun o lifftiau tanddaearol yng ngwaith Bwlchglas.

Rhaid llongyfarch Ioan a'r Lolfa am gyhoeddi cyfrol mor ddifyr a dadlennol.

GJ

CANOLFAN
M.O.T.

HUW
LEWIS

M.O.T.
CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS
HUW
LEWIS

TYRES

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

7

Martin Allyn Nelves

Ganwyd Martin yn Leeds yn 1961. Roedd yn fachgen galluog iawn ac enillodd ysgoloriaeth lawn i Ysgol Ramadeg Leeds a derbyn lle yng Ngholeg Magdalen, Caergrawnt i astudio Gwyddorau Naturiol. Wedi graddio, dechreuodd weithio ym mhencadlys ‘Boots’ yn Nottingham. Bu’n gweithio yno fel rheolwr tan iddo newid gyrfa a phenderfynu ail-hyfforddi fel athro Ffiseg. Bu’n gweithio fel athro mewn ysgolion yn Nottingham a Derby ac wedyn yn Ysgol Penglais. Yn 2016, dechreuodd weithio ym Mhrifysgol Aberystwyth fel Cymrawd Dysgu:

Allgymorth
Gwyddoniaeth yn yr
Athrofa Mathemateg,
Ffiseg a Chyfrifiadureg.
Roedd

cerddoriaeth, canu,
theatr a dramâu yn
rhan enfawr o fywyd
Martin. Cyfarfu Rhian
a Martin yng
Nghymdeithas
Ddrama Amatur
Westbridgford yn
Nottingham. Roedd y
cyfarwyddwr yn
castio’r ddrama, ‘A

Man for All Seasons’ ac wedi castio Rhian fel Margaret, merch Syr Thomas More, ond doedd dim modd dod o hyd i ddyn ifanc addas i chwarae gŵr Margaret. Ar ôl ychydig o alwadau ffôn, dywedodd y cyfarwyddwr i Rhian “Dwi’n meddwl mod i wedi dod o hyd i rywun i fod yn ŵr i ti - Martin yw ei enw.” A phriodon nhw ddwy flynedd yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf 1997 a ganwyd Ffion ym mis Gorffennaf 1998 a Siôn ym mis Mawrth 2000.

Roedd Martin wrth ei fodd â Chymru a dysgodd siarad Cymraeg yn dda iawn. Symudodd Martin, Rhian, Ffion a Siôn, i Dolau Gwyn yn 2003 o Nottingham. Dechreuodd Martin ddeall Cymraeg yn fuan ac roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn hanes a mytholeg Cymru. Roedd yn arbennig o hoff o straeon y Mabinogi. Cyhoeddodd Martin nofel o’r enw ‘The Blazing Stream’ ar Amazon - nofel ffuglen wyddonol wedi’i selio ar stori Blodeuwedd. Roedd Martin yn caru nofelau ‘The Lord of the Rings’ gan JRR Tolkien ac roedd yn dipyn o obsesiwn ganddo. Roedd yn arbennig o hoff o’r ffaith bod Tolkien wedi seilio iaith yr ‘Elves’ ar y Gymraeg. Roedd yn hoff iawn o ddyfyniad gan Tolkien “Welsh is of this soil, this Island, the senior language of the men of Britain; and Welsh is beautiful”.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ail-ddechreuodd Martin actio a chanu. Ymunodd â chôr Rhian, Côr Ger y Lli am un perfformiad ac roedd wedi dechrau mynychu ychydig o ymarferion gyda Chôr ABC. Ym mis Mawrth 2019, roedd Rhian a Martin yn rhan o gorws Opera Canolbarth Cymru yn eu perfformiad o ‘Tosca’ yn Aberystwyth ar gyfer y corws ‘Te Deum’. Roedd Martin wrth ei fodd yn canu a byddai’n canu ar unrhyw gyfle. Canodd gyda grŵp bach ‘Parti Plygain Papur Pawb’ yng ngwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont ond yn anffodus, doedd e ddim yn gallu y Nadolig diwethaf. Welsh translation.

Hoffai Rhian, Ffion a Siôn ddiolch i staff Ysbyty Bronglais, Ysbyty Singleton, Ysbyty Athrofaol Cymru - Caerdydd, Nyrsys Ardal y Borth, staff Y Feddygfa - Borth, Tîm hosbis yn y Cartref – HAHAV ac yn enwedig i’r tîm o ofalwyr o’r Tîm Ymateb Cymunedol a ddaeth i ofalu am Martin deirgwaith y dydd am bron i 3 mis. Rhannwyd rhoddion er cof am Martin rhwng HAHAV ac Elusen Tiwmor yr Ymennydd.

Dymuna’r teulu ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.



Cletwr

I gychwyn, ga’ i ddweud diolch. Diolch mawr i’n cwsmeriaid, ein cymuned, ein ffrindiau - am eich cefnogaeth gyson dros y misoedd diwethaf, a gobeithio dros y blynyddoedd i ddod!

Hefyd, rhaid diolch i’n staff a gwirfoddolwyr am eu gwaith caled iawn. Efallai nid yw’n deg i ffocysu ar unigolion, ond heb ymdrechion di-dor Karen Evans, ein rheolwr, mae’n siŵr na fyddai Cletwr yma o hyd. Rhaid cydnabod hefyd holl waith Barry Wise, ein Trysorydd, sydd wedi bod yn brysur iawn - chwilio am gymorth ariannol, ceisio deall goblygiadau a ffurflenni ffyrlo, ‘Bwyta allan’ a mwy. Diolch i bawb.

Fel rydych chi’n gwybod, mae’r siop wedi bod ar agor drwy’r cyfnod clo, ac mae’r caffi bellach ar agor yn llawn hefyd. Mae hi wedi bod yn amser anodd iawn, cymryd camau bach - cynnig tecawës, wedyn agor am wasanaeth tu allan, wedyn rhai byrddau tu mewn, drwy’r amser yn ceisio sicrhau iechyd a diogelwch ein staff ac ein cwsmeriaid.

Beth bynnag, rydyn ni’n dal yma, ond, yn anffodus, mae un agwedd bwysig iawn o’n gwaith heb ddod nôl yn llawn - ein digwyddiadau, am resymau amlwg. Mae ychydig o bethau yn digwydd dros Zoom, ond rydyn ni’n edrych ymlaen at yr amser pan fydd hi’n saff i bobl gwrdd eto.

Un sgil-ffaith y Covid yw bod llawer o bobl wedi agor cyfrif gyda ni. Maen nhw’n ddefnyddiol iawn a hyblyg. Ond gawn ni apelio i bobl tseco eu balans ac ychwanegu arian i’ch cyfrif cyn gynted â phosibl os ydych chi wedi gordynnu. Mae’n cymryd llawer o amser i’r staff i gysylltu â phobl am hyn.

Rydyn ni’n chwilio am fwy o wirfoddolwyr! Ein gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn Cletwr. Maen nhw’n gwneud llawer o dasgau pwysig, ond hefyd, maen nhw yn cael cyfle i adael y tŷ a gweld pobl! Mae nifer o’n gwirfoddolwyr ffyddlon dal adref ac yn hunan-ynysu oherwydd eu hiechyd, neu iechyd teulu agos, felly hoffem weld rhai newydd yn dod i lenwi’r bwlch. Cewch weithio yn y siop - ar y til neu lenwi’r silffoedd - neu yn y caffi ar gegin. Joio pobi? Dewch i mewn a gwneud teisennau blasus i’n cwsmeriaid! Ffoniwch 832113 am sgwrs, neu ofyn pan rydych chi yn y siop nesaf.

Ac i orffen, rhywbeth pwysig i nodi. Mae ein horiau agor yn newid tipyn bach. Hyd yn hyn roedd y siop ar agor 8.30-6.30, yn bennaf ar gyfer pobl yn mynd ac yn dychwelyd o’r gwaith, ond does fawr ohonyn nhw ar hyn o bryd! Mae’n hynod o dawel ar ôl pump o’r gloch! Felly rydyn ni’n newid - bydd y siop ar agor 9-5.30, Llun-Sadwrn, a 9-4 dydd Sul. Bydd y caffi ar agor 9.30-4 pob diwrnod, bwyd poeth tan 3, ac fe mae’r fwydlen lawn nôl bellach. Croeso cynnes i bawb.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yn y siop a chaffi yn y dyfodol agos.

NC

Cletwr

Oriau agor y siop

Shop opening hours

Dydd Llun - Sadwrn

9.00 - 5.30

Monday - Saturday

Dydd Sul

9.00 - 4.00

Sunday

Oriau agor y caffi

Cafe opening hours

Dydd Llun - Dydd Sul

9.30 - 4.00

Monday - Sunday

Bwyd poeth tan 3pm

Hot food until 3pm

Tyline Thai Trefechan

Trefechan Thai Massage

Tyline Thai £25 yr awr

Tyline Olew £30 yr awr

Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar

07878 071367

Salon Leri

Pob agwedd o drin

gwallt gan Richard

10am-7pm

Llun-Gwener

(01970) 832 674



Blwyddyn ddiwylliannol newydd dda i chi gyd!

Er gwaethaf amgylchiadau anodd a heriol y misoedd diwethaf, gobeithio eich bod chi wedi cael cyfle i fwynhau gwyliau'r haf, wedi treulio amser gyda theulu a ffrindiau, ac wedi gallu crwydro a mwynhau'r hyn sydd gan Geredigion ei gynnig unwaith eto.

Ry'n ni'n gwybod bod cadw cysylltiad gyda phobl wedi bod yn gwbl hanfodol dros y misoedd diwethaf, a gyda chynifer o bobl wedi gorfod addasu i weithio a dysgu o adre, mae'r galw am gysylltiad band eang cyflym a dibynadwy yn fwy amlwg nag erioed.

O gyfarfodydd Zoom i wyllo cyfresi Netflix; o gynnal cwisiau rhithiol i wneud gwaith cartref arlein – mae band eang cyflym a dibynadwy wedi chwarae rhan allweddol yn ein bywydau bob dydd. Mae'r we hefyd wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd ac iselder yn ystod y cyfnod clo.

Yn anffodus, mae nifer fawr o gartrefi yn parhau i ddioddef cysylltiad band eang araf ac annibynadwy, ac mae'r argyfwng diweddar wedi amlygu pa mor ddiffygiol ac annerbyniol yw'r sefyllfa yng Ngheredigion ar hyn o bryd.

Ry'n ni wedi cael nifer o gyfarfodydd gydag Openreach, BT ac Ofcom dros y cyfnod clo ac yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru a San Steffan i weithredu ar fyrder er mwyn gwella'r sefyllfa. Yn sgil hynny, roeddem yn falch iawn i glywed y cyhoeddiad diweddar bod Ceredigion wedi cael ei dewis i gymryd rhan mewn cynllun peilot band eang newydd.

Golyga hyn bod pob cartref a busnes yng Ngheredigion, sydd â chyflymder band eang llai na 30 Mbps, yn gymwys am grant trwy'r Gronfa Uwchraddio Band Eang. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn ychwanegu at werth y grant, sy'n golygu y gallai cartrefi hawlio hyd at £3,000 o grant, gyda busnesau yn medru hawlio hyd at £7,000. Bydd y cyllid sydd ar gael yn rhoi grant i breswylwyr a busnesau tuag at y gost o osod band eang yn ei heiddo.

Beth sydd angen i chi wneud nesaf?

Rydym yn annog pob etholwr sydd â chyflymder o lai na 30Mbps i gofrestru eu diddordeb drwy'r ddolen ganlynol: <https://broadband-upgrade-fund.campaign.gov.uk>. Y dyddiad cau i gofrestru yw 30 Medi 2020.

Ni fydd cofrestru yn gwarantu y byddwch yn cael cysylltiad band eang cyflym yn eich eiddo - ond po fwyaf o bobl sy'n cofrestru, y mwyaf tebygol y bydd cyflenwr masnachol yn cydnabod y galw ac yn manteisio ar y cyfle i gysylltu clwstwr o gartrefi mewn ardal benodol.

Os ydych chi eisiau cysylltu â ni am y cynllun hwn, neu am unrhyw fater arall, mae croeso i chi gysylltu â ni: elin.jones@senedd.cymru / ben.lake.mp@parliament.uk



Ysgol Tal-y-bont

Wedi oriau lawer o gyfarfodydd rhithiol dros y we, cyfarfodydd safle, llenwi llawer o asesiadau risg a darllen dogfennau cynhwysfawr, daeth yn amser ail-agor drysau'r ysgol. Ond ysgol go wahanol i'r arfer ydy hi ar hyn o bryd. Mae pob ysgol yn dilyn canllawiau'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau y risg o ledaenu'r feirws ymysg cymuned yr ysgol ac mae hynny'n gallu creu sefyllfa afreal iawn.

Y prif wahaniaeth y byddai rhywun yn sylwi arno'n syth yw bod y byrddau wedi eu trefnu mewn rhesi hyd yn oed i'r plant lleiaf sy'n atgoffa rhywun o ysgol yn ystod Oes Victoria! Gwahaniaeth mawr arall yw bod angen i ni gadw dosbarthiadau ar wahân yn ystod y dydd a hynny yn ystod amser chwarae hefyd hyd yn oed! Mae rhieni'r ysgol hefyd yn gorfod ymdopi gyda llawer o newidiadau i'n trefniadau arferol. Mae'r ysgol wedi bod yn falch o ddilyn polisi drws agored yn y gorffennol, ond ar hyn o bryd nid yw ymwelwyr, gan gynnwys rhieni, yn cael mynediad i'r ysgol.

Yn sicr, mae'r cyfyngiadau presennol yma wedi ein gorfodi i feddwl mewn ffordd wahanol iawn am ein darpariaeth, gan gynnwys ar gyfer cwricwlwm sy'n cyd-fynd gyda'r rheolau ond hefyd yn cynnig cyfleoedd i ysbrydoli a sbarduno'r dysgu. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch o galon i'r staff i gyd am y cydweithio a'r trefnu gofalus a fu dros fisoedd yr haf i sicrhau fod popeth yn ei le yn barod ar gyfer derbyn y plant. Ac fel y gwelwch o'r ffotograff, maent wedi llwyddo'n rhyfeddol i drefnu gweithgareddau hwyliog a chyffrous ac mae'n codi calon i weld y plant yn gwenu gymaint wrth ddechrau ymgartrefu nol yma. Mi fydd y misoedd nesaf yn anodd eto, ond rwy'n hyderus y byddwn yn gallu parhau i ddarparu addysg gytbwys a bywiog yn ystod y cyfnod heriol yma.

HJ

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

**James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111**

Doniol

Mae hen opera gan Mozart wedi ei diweddarau:
COVID FAN TUTTE

* * *

Claf yn mynd i weld y doctor.
Doctor: mae'n flin gen i, dim ond tair munud sydd efo chi i fyw.
Claf: beth allwch chi wneud drosta i?
Doctor: gymerwch chi wy wedi'i ferwi?

Gwrthryfel Difodiant



Ar ddydd Sul 30 Awst cynhaliodd Grŵp Gwrthryfel Difodiant (Extinction Rebellion) Tal-y-Bont ddigwyddiad ar y patsyn glas i dynnu sylw at yr argyfwng hinsawdd a'r angen i weithredu nawr. Roedd y digwyddiad yn rhan o weithgareddau Gwrthryfel Difodiant dros Gymru ac Phrydain a drefnwyd dros gyfnod o bythefnos.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i drigolion yr ardal siarad gydag aelodau o'r grŵp am y sefyllfa o newid hinsawdd yma yng Nghymru ac ar draws y byd, a hefyd am y gwaith a wneir gan y mudiad Gwrthryfel Difodiant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwrthryfel Difodiant wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi hwb i'w hymateb i'r argyfwng hinsawdd ac i ddatblygu Cynulliad Dinasyddion i drafod dyfodol y wlad.

Yn ogystal, mae'r grŵp wedi cefnogi y *Climate and Emergency Bill* a gyflwynwyd yn San Steffan ar yr ail o Fedi ac a noddwyd gan ein AS, Ben Lake. Am fwy o fanylion ewch at y wefan <https://www.cebill.uk/>

Efallai mai moment mwyaf cyffrous y digwyddiad oedd ymweliad y Gwrthryfelwyr Coch â'r pentref. Grŵp o bobl mewn dillad coch a'u hwynebâu wedi'u peintio'n wyn oedd y rhain a fu'n cerdded yn araf o gwmpas y pentref. Mae'r coch yn cynrychioli gwaed y byd natur o'r niwed a wneir iddo. Mae y symudiadau araf a chynhyrfus yn cynrychioli y tristwch o weld dinistr byd natur ac anifeiliaid.

Am fwy i fanylion gallwch cysylltu â'r grŵp ar y ebost: xrtalybont@gmx.co.uk

Capel ac Eglwys

Fe fu *Papur Pawb* yn holi holl gapeli ac eglwysi'r ardal parthed eu sefyllfa yn ystod y cyfnod anarferol hwn. Dyma'r atebion a gafwyd:

Bethel, Tal-y-bont

Aeth tua 10 mis heibio erbyn hyn ers i gynulleidfa Bethel fedru addoli yn y capel, yn gyntaf o ganlyniad i'r gwaith o osod boiler nwy newydd, ac yna wrth i'r gwaith peintio tu mewn fynd rhagddo. Cyn i'r gwaith ddod i ben, fodd bynnag, fe gyrhaeddodd y Coronafeirws, ac o ganlyniad bu'n rhaid aros i'r Clo Mawr ddod i ben cyn hyd yn oed ystyried ailagor. Yn y cyfamser buom yn ffodus o fedru derbyn myfyrdod misol electronig gan Geraint Evans, a mawr yw ein diolch iddo am ei gyfraniad.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio fe aeth y swyddogion ati i geisio asesu priodoldeb ailagor gan gadw mewn cof y rheolau iechyd a diogelwch newydd a gyflwynwyd gan y llywodraeth.

O ganlyniad, am 10.00 **fore Sul, 27 Medi** bydd Geraint yn arwain Gwasanaeth ym Methel lle bydd cyfle i roi prawf ar ein gallu i addoli'n ddiogel o dan y rheolau newydd. Cynhelir Cwrdd Eglwys byr ar ddiwedd yr oedfa er mwyn rhannu gwybodaeth a chasglu barn yr aelodau.

Ar yr un pryd, gyda llawenydd gallwn gyhoeddi fod Gwilym Tudur wedi cychwyn ar ei waith fel Gweinidog o dan hyfforddiant dros yr ofalaeth sydd hefyd yn cynnwys Seion, Aberystwyth. Estynnwn groeso cynnes i Gwilym a'i briod Alex, sydd wedi ymgartrefu yn Aberystwyth. Mae Gwilym wedi trefnu oedfa wythnosol ar Zoom. Os hoffai unrhyw un dderbyn cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio Zoom, neu os hoffech gysylltu â Gwilym, anfonwch air at gwynionydd@briinternet.com os gwelwch yn dda. Yr ydym yn y broses o greu cyfrif e-bost a rhif ffôn i'r ofalaeth er mwyn i'r aelodau fedru cysylltu'n uniongyrchol â Gwilym, ac fe ddylai hyn ddigwydd yn y dyfodol agos.

Gwyddom fod sawl unigolyn nad ydynt yn aelodau ym Methel yn cefnogi'r gwasanaethau ac yr ydym yn croesawu eich presenoldeb yn fawr iawn. Os ydych fel Cyfeillion yr Achos, yn dymuno derbyn negeseuon e-bost gennym gyda gwybodaeth am weithgareddau'r capel, anfonwch air os gwelwch yn dda.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Mae gwasanaethau Cymraeg wythnosol yn cael eu cynnal ar *Zoom* ar draws gofalaeth Bro Padarn, sy'n cynnwys St. Pedr, Elerch, ac mae croeso i bawb ymuno. Cysylltwch gyda'r Parchg Lyn Lewis Dafis ar lyndafis@gmail.com i dderbyn manylion pellach. Dymunwn yn dda iawn i Lyn wrth iddo yntau ddathlu pen-blwydd arbennig ar 11 Awst.

Eglwys Sant Mihangel Eglwysfach

Bellach mae'r eglwys ar agor ar foreau Llun a Mercher o 2 – 4 y prawn ar gyfer gweddi breifat. Bydd y gwasanaeth cyntaf yn cael ei gynnal ar 13 Medi am 9.30. Os hoffai unrhyw un ddod i'r gwasanaeth bydd angen cysylltu o flaen llaw gydag Alison Swanson, Warden yr eglwys, 01654-781322.

Rehoboth, Taliesin

Bydd capel Rehoboth ar gau hyd ddiwedd y flwyddyn. Adolygir y sefyllfa yn Ionawr, 2021.

Nasareth, Tal-y-bont

Penderfynodd yr aelodau y dylid aros ymhellach cyn cynnal oedfaon yn y capel. Cynhelir gwasanaeth arbennig i'r ofalaeth yng nghapel Y Garn, Bow Street, ddechrau Hydref.

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

Michael Rowlands

Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

O'r Mynydd i'r Môr

Cyfleoedd i gymryd rhan yn llunio'r prosiect

Dros yr haf rydw i Siân Stacey, Swyddog Datblygu'r Prosiect wedi bod yn siarad 1 – 1 efo nifer o bobl yn yr ardal a hoffwn ddiolch i'r rhai sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y cyfnod. Yn ystod Medi, bydd sawl cyfle i chi gymryd rhan yn y prosiect.

Holiadur am eich defnydd chi o'r adnoddau naturiol yn yr ardal.

Rydym wedi lansio holiadur i gasglu ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau o sut mae pobl yn defnyddio'r tir a môr yn ardal y prosiect, bydd hyn o gymorth mawr wrth inni gydweithio gyda phobl yr ardal i lywio'r prosiect. Mae'r holiadur ar gael ar ein gwefan yn y Gymraeg a'r Saesneg www.ormynyddirmor.cymru P'un ag ydych chi'n ffermio, yn rhedeg cwmni awyr agored, mwynhau bywyd gwyllt yr ardal, rydym yn awyddus i glywed ganddoch chi. Gallaf anfon fersiwn papur os yw hynny'n fwy hwylus i chi.

Sgwrs Ar-lein – Diweddariad y prosiect 16eg Medi, 5.30yp – 6.30yp

Cyfle i chi gael diweddariad a chlywed am y datblygiadau ers i RSPB Cymru gymryd yr awennau, bydd cyfle i chi holi cwestiynnau hefyd. Fi, Siân Stacey a Rhys Evans, Swyddog Polisi RSPB Cymru, sydd hefyd yn fab fferm o ochrau Dolgellau, fydd yn arwain y sesiwn. Croeso i chi anfon cwestiwn i ni o flaen llaw drwy e-bost sian.stacey@ormynyddirmor.cymru neu gallwch ofyn ar y noson. Oherwydd bod y sgwrs arlein bydd rhaid i chi gofrestru trwy ein gwefan www.ormynyddirmor.cymru o flaen llaw er mwyn debryn y linc. *Sgwrs uniaith Gymraeg fydd hon, bydd y digwyddiad Saesneg yn cael ei chynnal ar yr 17eg o Fedi.

Gweithdy Ar-lein 30ain Medi 5.30yp – 7.00yh.

Gweithdy rhyngweithiol a chyfle i drafod gweledigaeth y prosiect, a'r prif themâu i'w hystyried a'u harchwilio gyda'n gilydd drwy ddatblygiad y prosiect. Ewch i'n gwefan i gofrestru ar gyfer y gweithdy yma, croeso cynnes i bawb.

Os hoffech drafod unrhyw elfen o'r prosiect, rydw i'n fwy na hapus i gael sgwrs ar-lein neu ar y ffôn – ebostiwch i drefnu! Am unrhyw fanylion pellach neu i arwyddo i'r cylchlythyr ewch i www.ormynyddirmor.cymru.

Siân Stacey, Swyddog Datblygu O'r Mynydd i'r Môr.

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Gyda'r cyfyngiadau Coranafeirws yn dechrau llacio mae swyddogion Neuadd Goffa Tal-y-bont wedi cynnal asesiad risg ac wedi penderfynu agor yn raddol i rai digwyddiadau yn unig. Dim ond y Neuadd Fawr fydd ar gael fodd bynnag ac ni chynhelir unrhyw ddigwyddiadau yn y Neuadd Isaf.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf, sef sesiwn Pilates nos Lun 7 Medi. Ni chaniateir mwy nag un digwyddiad ar unrhyw ddyddiad, ac ni fydd yn bosibl cynnal partïon plant am y tro oherwydd gofynion pellhau cymdeithasol.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru, trwy gydweithrediad Cyngor Sir Ceredigion, am nawdd ariannol o dan y Cynllun Grantiau Busnes o ganlyniad i Covid-19.

YES CYMRU

Mae *YesCymru* am geisio sefydlu cangen newydd yn yr ardal hon cyn bo hir. Mae *YesCymru* yn ymgyrchu dros annibyniaeth i Gymru a, gyda'r aelodaeth dros Gymru gyfan yn cynyddu'n aruthrol dros y misoedd diwethaf, mae awydd i lenwi'r bwlch o safbwynt canghennau yn yr ardal rhwng Aberystwyth a Machynlleth. Mae o leiaf un faner wedi'i chodi ac yn cyhwan yn un o erddi Tal-y-bont felly ni ddylai fod yn anodd sefydlu cangen newydd.

Os am fwy o wybodaeth, cysyllter ag ysgrifennydd cangen Machynlleth, James January McCann: yesmachynlleth@gmail.com

Y Gair Olaf

Dwi'n siŵr bod llawer ohonoch wedi trafod a chlywed yn ddiweddar am y broblem o ymwelwyr amharchus yn mwynhau cefn gwlad Cymru, a'r ffaith bod hwn wedi bod yn bwnc llosg dros yr wythnosau diwethaf.

Beth sydd wedi fy synnu i ar ôl yr holl sôn am hiliaeth a xenophobia ar draws y byd, ac yma yng Nghymru, ydy'r atgasedd, a'r iaith sy'n cael ei defnyddio wrth drafod y pwnc yma ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymysg pobol.

A ydy hi dal yn dderbyniol yn y byd sydd ohoni i ddefnyddio iaith xenophobic fel 'Twll din bob Sais' a beio 'Saeson' am bob problem sy'n codi yng Nghymru?

Dyle ni fel Cymry fod yn fwy ymwybodol na neb o'r ffaith bod anghyfiawnder a hiliaeth yn bodoli, gan ein bod wedi ar ryw adeg yn ein bywydau, ddioddef o ragfarn a xenophobia yn erbyn ni fel Cymry gan unigolion, y cyfryngau a haneswyr.

Nid ydy Cymru na'r Cymry yn rhydd o fod yn hiliol, rhagfarnllyd na xenophobic ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hynny ac yn barod i dynnu sylw ein ffrindiau, cymdogion a theulu pan eu bod yn dweud rhywbeth sy'n annerbyniol neu'n anaddas.

Pa fath o gymdeithas ydych chi eisiau byw ynddi? Yn anffodus 'ma na lot o waith gan Gymru i wneud cyn ein bod yn wlad sydd â chymdeithas iach, sy'n rhydd o'r broblem yma.

Eurgain Phylip

BROABER360

Helo bawb! Mae wedi bod yn gyfnod hir ers fy ngholofn ddwetha' i *Bapur Pawb*, ac yn amlwg mae tipyn o bethau wedi newid yn y cyfamser. Drwy'r cyfnod clo bu cymuned BroAber360 wrthi'n creu straeon diddorol, aml-gyfrwng lleol.

Felly, gyda hynny mewn golwg, dyma rai o brif straeon BroAber360 yn y mis diwethaf. Yn amlwg doedd hi ddim yn bosib cynnal sioeau yn ôl yr arfer, ond diolch i Betsan Siencyn am eu straeon yn hybu Sioe ddigidol Tal-y-bont - ac adroddiad y sioe ganddi! Os da chi'n hoff o'ch pêl-droed, beth am fynd draw i'r wefan â gwrando ar bodlediad cyntaf Gruffudd Huw, Aberystwyth, wrth iddo drafod hoff gemau rhyngwladol Gwynfor Jones. Mae Gwynfor wedi gwylio dros 150 o gemau Cymru yn fyw, felly mae'n bleser gwrando arno'n trafod ei hoff atgofion.

Un o fanteision y cyfnod clo ydy bod mwy a mwy o bobl yn gwerthfawrogi'r ardal rydym yn byw ynddi, ac yn manteisio drwy gerdded a beicio ein lonydd. Diolch i Wynne Mel a Marian Hughes am ddarn bach am ailagor Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r Glyn, un o lwybrau mwyaf poblogaidd gogledd Ceredigion.

A chofiwch taw eich gwefan CHI ydi www.broaber360.cymru <<http://www.broaber360.cymru>>! Felly, os ydych eisiau cyfrannu, bydd angen i chi greu Cyfrif drwy bwyso Ymuno ar dop-dde'r sgrin, a dilynwch y camau ar y sgrin. Wedi hynny fe fyddwch yn rhydd i greu cynnwys am unrhyw beth lleol!

Byddwn yn cynnal fwy o ddigwyddiadau digidol dros y misoedd nesaf, felly am y diweddaraf ac i gadw fyny â'ch hanesion lleol, dilynwch BroAber360 ar Facebook a Twitter!

Os ydych eisiau cysylltu â mi ynglŷn â stori, neu am unrhyw reswm arall, gallwch wneud hynny drwy anfon e-bost at danieljohnson@golwg.com

Daniel Johnson

CHWARAEON

Llwyddiant Golff

Mae David Griffiths, Maes-y-deri, Tal-y-bont wedi mwynhau llwyddiant ysgubol mewn sawl cystadleuaeth ar gwrsg golff Borth ac Ynyslas yr haf hwn. Ymhlith ei fuddugoliaethau oedd cipio Cwpan Gidley Wright.

Llongyfarchiadau hefyd i Angharad Basnett, Cae'r-gog, Bont-goch ar ennill Cwpan Clarke, sef prif gystadleuaeth merched clwb golff y Borth a gynhaliwyd ar 14-15 Awst. Gorffennodd Angharad, a oedd yn chwarae ar handicap o 11, chwe ergyd yn well na'r ail yn gystadleuaeth.

Daeth Karen Evans, Nantllain Isaf, Tal-y-bont, yn ail yn y gystadleuaeth am Dlws Evelyn Jenkins gyda sgôr o 25 pwynt.

Rhys i Luton

Mae'r pêl-droediwr lleol Rhys Norrington-Davies wedi symud ar fenthg o Sheffield United i Luton Town am y tymor. Dylai'r cefnwr chwith 21 mlwydd oed deimlo'n gartrefol iawn gyda'i glwb newydd gan fod y rheolwr, Nathan Jones, yn Gymro ac mae'r amddiffynnwr rhyngwladol, Tom Lockyer, hefyd wedi ymuno â'r clwb. Adwaenir y clwb fel yr 'Hatters' sy'n addas iawn gan fod tad-cu Rhys, Gwyn Evans, yn hanu o Dre'r ddôl lle'r oedd y fasnach hetiau yn llewyrchus ddwy ganrif yn ôl!

Cofrestrwch i uwchraddio eich band eang

Gallai preswylwyr a busnesau gwledig sydd â chyflymder band eang o lai na 100Mbps fod yn gymwys ar gyfer y Gronfa Uwchraddio Band Eang.

Mae'r Gronfa Uwchraddio Band Eang yn ymgrych beilot sydd ar gael i adeiladau gwledig yng Nghernyw, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Cumbria a Northumberland.

Mae'r cyllid ar gael fel grantiau bach o'r enw talebau gwerth hyd at £3,500 ar gyfer pob busnes bach a chanolig, a hyd at £1,500 yr eiddo preswyl.

Ar ôl i chi greu digon o ddiddordeb yn eich ardal neu'ch cymuned, mae'r gronfa rydych chi'n ei chynhyrchu yn mynd yn uniongyrchol i'r cyflenwr o'ch dewis i wneud iawn am gost darparu'r gwasanaeth gwell.

Mae gan ein cymuned tan 30 Medi 2020 i gofrestru cymaint o ddiddordeb â phosibl i dyfu ein Cronfa Uwchraddio Band Eang.

Nid oes unrhyw gost i gofrestru nag unrhyw ymrwymiad i archebu gwasanaeth cyflymach os bydd ar gael.

<https://broadband-upgrade-fund.campaign.gov.uk/>

Pobl a Phethe

Croeso

Estynnwn groeso cynnes i Amanda Mallows, Rose a Holly sydd wedi ymgartrefu yn y Tŷ Capel, Bont-goch.

Croeso hefyd i Seren Bethan, Bwthyn Rhosyn Gwyllt, dinesydd ifancaf Bont-goch, a anwyd ar 10 Mehefin 2020.

Ffermwr Llwyddiannus

Yn dilyn ei llwyddiant arbennig yn hyfforddi a gwerthu cŵn defaid, yn naturiol fe gafodd Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont gryn sylw'n y wasg a hynny'n gwbl haeddiannol. Bu ei lun a'i hanes ym mhapurau dyddiol Y *Telegraph* a'r i a chafodd sawl cyfweiliad ar y radio. Ymddangosodd hefyd ar raglenni amrywiol ar y teledu.

Bellach â Dewi'n uchel ei barch ym maes bridio a threialon cŵn defaid, cafodd ei wahodd i gyd-sylwebu ar raglen deledu newydd – Ffermio: Treialon y Cŵn gydag un arall o Dal-y-bont, y cyflwynydd profiadol Alun Elidyr, Simne Wen.

Tybed ai cam naturiol i Dewi yw hyn wedi blynyddoedd o sylwebu ffraeth yn ystod Cneifio Cyflym Sioe Tal-y-bont?

Rydyn ni'n hynod falch o dy llwyddiannau ac yn dymuno'n dda i ti yn y dyfodol.

Ymadael

Ffarwel a phob dymuniad da i fferyllydd Tal-y-bont Gary Jones, Catherine a Mathew, Pentre Bach, sydd wedi gadael i fyw i dde Lloegr. Mae'r fferyllydd yn aros ar agor i'r cyhoedd dan oruchwyliaeth fferyllydd profiadol.

Panto Sam

Erbyn hyn, mae Sam Ebenezer, Maes-y-Felin, Tal-y-bont, yn hen law ar berfformio mewn panto adeg y Nadolig ond eleni bydd e'n cymryd rhan mewn panto ar-lein am y tro cyntaf. Gallwch weld 'Jack and the Beanstalk' ar-lein o 4 Rhagfyr ymlaen drwy archebu tocyn ar www.pantoonline.co.uk

Dirgelwch y Cerrig



Bellach mae rhes hir o gerrig bach addurnedig wedi'u gosod yn ddestlus ar ymyl y patsyn glas yn Nhal-y-bont. Dechreuwyd gosod y rhain ar ddechrau'r cyfnod clo gan ychwanegu lliw i'r pentref a magu diddordeb ymhlith plant o bob oedran.

Mae'n ddirgelwch pwy oedd yn gyfrifol am ddechrau'r fenter ond mae'n amlwg iddo ef neu hi lwyddo i ddenu diddordeb. Cuddiwyd rhai o'r cerrig yn agos at lwybrau cerdded yr ardal gan ganiatáu i blant eu darganfod a'u gosod yn y rhes.

Mewn cyfnod digalon mae hon wedi bod yn fenter i'w chroesawu ac mae angen llongyfarch y dewin neu'r ddewines ddirgel.



Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF
gruffydsjones@googlemail.com

07594 349 354
01970 832 543

Gruffydd Jones
Briciwr • Gwaith Maen • Slabio

argraffu da
am bris da



ylolfa holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolf.com